

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613


Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James



Tynnu lluniau dosbarthiadau - pawb

Ar ddydd Mercher y 12fed o Fehefin mi fydd cwmni Tempest yn tynnu lluniau'r plant yn eu dosbarthiadau/blynyddoedd dysgu. Bydd angen i'r plant fod yn gwisgo naill ai siwmpwr/crys polo **coch** yr ysgol, neu'r crys polo **gwyn**. Os hoffech brynu gwisg ysgol ail-law yn barod ar gyfer y lluniau, ewch i'r Swyddfa at Miss Ceri dydd Llun neu Mawrth lle bydd dillad ar gael am £2 yr eitem.

Gwersi beicio Blwyddyn 6 yn parhau

 Bydd gwersi beicio i ddisgyblion Blwyddyn 6 yn parhau drwy wythnos nesaf. Mae croeso i blant Bl.6 adael eu beiciau yn ddiogel yn y Neuadd dros y penwythnos hwn ac yn ystod yr wythnos nesaf.

Gŵyl Chwaraeon – Blwyddyn 2

Bydd disgyblion Blwyddyn 2 yn mynychu Gŵyl Chwaraeon yn y Brifysgol ar ddydd Llun y 10fed o Fehefin (mae'r trefniadau ar gyfer hyn wedi digwydd yn hwyr felly ymddiheuriadau am y byr-rybudd) Bydd angen i'r plant wisgo yn addas ar gyfer gwneud gweithgareddau chwaraeon os gwelwch yn dda. Does dim cost ynghlwm â'r weithgaredd yma.

Gŵyl trwy'r lens – Blwyddyn 5

Mae Blwyddyn 5 yn cymryd rhan mewn prosiect ffilmio ar hyn o bryd, a byddant yn mynychu Gŵyl yn y Llyfrgell Genedlaethol ddydd Mawrth nesaf – 11eg o Fehefin. Byddant yn cerdded yno ac yn ôl. Does dim cost ynghlwm a'r daith hon.

Criced ar y Geufron


Bydd tîm o blant hŷn yr ysgol yn cymryd rhan yn y twrnamaint Criced ar gyfer ysgolion Cylch Aberystwyth ar ddydd lau y 13eg o Fehefin. Bydd y gemau yn cael eu chwarae ar y Geufron – sef lleoliad Clwb Criced Aberystwyth. Byddwn yn cerdded yno ac yn ôl. Bydd aelodau'r tîm yn derbyn y manylion llawn maes o law. Bydd angen pecyn i ginio arnynt.



Mabolgampau Ysgol – 20/06/2024

Byddwch yn derbyn rhaglen ar gyfer ein Mabolgampau Ysgol cyn hir. Bydd croeso i chi fel rhieni fynychu'r mabolgampau. Ar gyfer plant y Meithrin, os oes modd i'r plant sydd fel arfer yn mynychu yn y boreau yn unig fynychu yn y prynhawn ar y diwrnod hwnnw byddai hynny'n wych. Rhannwch unrhyw anawsterau gyda staff y Meithrin os gwelwch yn dda.

Tripiau Haf – i bawb



Byddwch yn derbyn llythyr trwy e-bost yn ystod yr wythnosau nesaf yn nodi trefniadau tripiau haf eich plant. Yn draddodiadol – trip haf blynyddoedd 5 a 6 yw'r daith breswyl i Wersyll yr Urdd sydd eisoes wedi digwydd ym Mai. Mewn ymateb i'ch sylwadau chi yn yr holiadur i rieni y llynedd, bydd blynyddoedd 5 a 6 yn cael trip lleol iawn er mwyn cadw'r costau i lawr, ond gan barhau i roi'r profiad diwedd tymor iddyn nhw trwy drip allan o'r ysgol. Byddwn yn gwrandao ar syniadau'r plant ar gyfer beth fydd yn digwydd.

Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r [Calendr Hanner Tymor](#) ar gyfer yr **hanner tymor hwn**. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

Dyddiadau pwysig yr hanner tymor nesaf

Bydd yr ysgol yn cau ar gyfer gwyliau'r haf ar ddydd Gwener y 19eg o Orffennaf.

Bydd y flwyddyn ysgol newydd yn cychwyn ar ddydd Mercher y 4^{ydd} o Fedi i blant (bydd hyfforddiant staff ar yr 2^{ail} a 3^{ydd}).

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

Yn gywir,

Gareth L James

Pennaeth Dros Dro

07/06/2024

www.ysgolgydraeg.cymru

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James




Taking class photos - everyone

On Wednesday the 12th of June Tempest will be photographing the children in their classes/learning years.

The children will need to be wearing either the school's red jumper/polo shirt, or the white polo shirt.

If you would like to buy second-hand school uniform ready for the photos, please go to Miss Ceri's office on Monday or Tuesday where clothes will be available for £2 per item.

Year 6 cycling lessons continue

 *Cycling lessons for Year 6 pupils will continue through next week. Year 6 children are welcome to leave their bikes safely in the Hall this weekend and next week.*

Sports Festival – Year 2

Year 2 pupils will be attending a Sports Festival at Aberystwyth University on Monday 10th June (arrangements for this have taken place late so apologies for the short notice) Children will need to dress appropriately for sporting activities please. There is no cost involved with this activity.

Festival through the lens – Year 5

Year 5 are currently taking part in a filming project and will be attending a Festival at the National Library next Tuesday - 11th June. They will walk there and back. There is no cost attached to this trip.

Cricket on the Geufron


A team of older children from the school will take part in the Cricket tournament for Aberystwyth Area schools on Thursday the 13th of June. The games will be played on the Geufron - which is the location of Aberystwyth Cricket Club. We will be walking there and back. Team members will receive full details soon. They will need a packed lunch.



School Sports Day – 20/06/2024

You will receive a programme for our School Sports before long. You as parents will be welcome to attend the sports. For the Nursery children, if it is possible for the children who normally only attend in the mornings to attend in the afternoon on that day that would be great. Please share any difficulties with the Nursery staff.

Summer Trips – for everyone



You will receive a letter by email in the coming weeks setting out the arrangements for your children's summer trips. Traditionally the summer trip for years 5 and 6 is the residential trip to an Urdd Residential Centre which has already taken place in May. In response to your comments in the questionnaire for parents last year, years 5 and 6 will also have a local trip, keeping costs down, but continuing to give them the end of term feeling through a trip out of the school. We will listen to the children's ideas for these trips.

Half Term Calendar

Here is the link to the [Half Term Calendar](#) for **this half term**. A link to the calendar is included in every letter, and it lives permanently on the school's website.

Important dates for next half term

The school will close for the summer holidays on Friday the 19th of July.

The new school year will start on Wednesday the 4th of September for children (staff training will be on the 2nd and 3rd).

If you have any concerns about your child's wellbeing or educational development, then please contact me immediately.

Yours sincerely,

Gareth L James

Acting Headteacher

07/06/2024

 www.vsgolgybraeg.cymru